Taflen Waith: **Yr Holocaust a Chymru: Yr Iaith Gymraeg**

TASG 1

a) Darllenwch fywgraffiad Kate Bosse-Griffiths.

Ganed Käthe (Kate) Bosse-Griffiths yn Wittenberg, yr Almaen yn 1910. Roedd ei thad, Paul Bosse, yn brif lawfeddyg yn yr ysbyty lleol tra bod ei mam, Käthe arall, yn dod o deulu Iddewig. Er bod rhieni Käthe yn Iddewig, magwyd hi (fel ei merch Kate) yn Gristion. Ar ôl i Ddeddfau Nuremberg gael eu pasio yn 1935, fodd bynnag, cafodd hi a'i phlant eu dosbarthu'n Iddewon.

Derbyniodd Kate ddoethuriaeth mewn cerfluniaeth Eifftaidd o Brifysgol Munich a chafodd swydd yn yr Amgueddfa Eifftolegol yn Berlin. Diswyddwyd hi ar ddiwedd 1936 pan ddatgelodd gydweithiwr ei thras Iddewig. Fe wnaeth hi ffoi o'r Almaen a dewis Prydain fel cyrchfan iddi, gan gyrraedd ym mis Ionawr 1937. Cafodd swydd ym Mhrifysgol Rhydychen ym 1939, a chyfarfod ei darpar ŵr, John Gwyn Griffiths. Priodod y ddau yn gyflym ym mis Medi 1939, yn rhannol oherwydd ofnau y byddai Kate yn cael ei dosbarthu fel gelyn estron a'i charcharu. Lladdwyd mam Kate yn y pen draw yng ngwersyll-garchar Ravensbrück, er i rai aelodau eraill o'r teulu oroesi'r rhyfel.

Symudodd Kate a Gwyn i Gymru, lle cofleidiodd Kate achos y Gymraeg, gan ysgrifennu barddoniaeth a straeon byrion a'u cyflwyno (yn llwyddiannus) mewn cystadlaethau. Ar y cychwyn, helpodd Gwyn hi gyda chyfieithu i'r Gymraeg, ond daeth yn rhugl yn fuan. Roedd tirwedd Cymru yn ei hatgoffa o goedwigoedd duon yr Almaen, a'r "natur ddi-nod go iawn, y peth yr oeddwn wedi ei golli cymaint yn nhrefnusrwydd hyfryd cefn gwlad Lloegr".[1]

Roedd Kate a Gwyn yn aelodau blaenllaw o Gylch Cadwgan, grŵp llenyddol Cymraeg a enwyd ar ôl mynydd lleol. Cyhoeddodd ei nofel gyntaf, *Anesmwyth Hoen*, yn 1941, ac yn 1942 enillodd gystadleuaeth y stori fer yn yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd yn Aberteifi gyda *Y Bennod Olaf*. Roedd elfen hunangofiannol i nifer o'i gweithiau, gan ymgorffori themâu Almaeneg ac Ewropeaidd.

Symudodd y teulu i Abertawe wedi diwedd y rhyfel, lle daeth Kate yn guradur casgliad Eifftaidd y brifysgol. Parhaodd i ysgrifennu i'r wasg Gymraeg, gan gefnogi creu Cymdeithas yr Iaith yn 1962. Cafodd hyd yn oed ddirwy am wrthod talu tocyn parcio a gafodd ei ysgrifennu yn Saesneg. Bu farw yn 1998. Mae ei meibion yn parhau â'i hangerdd dros yr iaith Gymraeg. Mae ei mab hynaf, Robat, yn rhedeg gwasg gyhoeddi Y Lolfa, tra bod ei mab ieuengaf, Heini, yn awdur sydd wedi ysgrifennu nifer o lyfrau ar ddysgu Cymraeg.

b) Gwrandewch ar glip o Heini Gruffudd yn trafod agwedd ei fam at y Gymraeg.

c) Gan weithio mewn parau neu yn unigol, atebwch y cwestiynau canlynol:

1. Pam y daeth Kate i ymwneud â'r mudiad Cymraeg?

.....

.....

[1] Heini Gruffudd, *A Haven from Hitler* (Talybont: Y Lolfa, 2014), t. 144.

.....

.....

.....

.....

.....

2. Dewisodd Kate fynegi ei theimladau trwy farddoni. Sut gall llenyddiaeth a barddoniaeth ddal y profiad o fod yn ffoadur?

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

TASG 2

a) Gwrandewch ar glip o Heini Gruffudd yn darllen un o gerddi ei fam:

Hedyn (1971)
(I ateb y cwestiwn, sut y gallwn fod berchen gwreiddiau mewn dwy wlad.)

Hedyn wyf o wlad bell
Wedi ei lyncu gan aderyn treigl
Wedi ei gludo dros y mor gan wennol;
Dsgynnodd ar dir newydd ei aredig
A thaflu gwreiddiau

Glaswelltyn wyf ar borfa las
Wedi fy mhlygu gan garn defaid
Wedi fy nghnoi gan ddant bustach
Tyflais yn gnawd byw
Tyfais yn rhan o Gymru

b) Gan weithio mewn parau neu yn unigol, atebwch y cwestiynau canlynol:

1. Sut mae Kate yn cynrychioli taith ei bywyd yn y gerdd hon?
2. Pam bod Kate yn disgrifio'i hun fel hedyn?
3. Beth mae'r cae gwyrdd yn ei gynrychioli yn y gerdd? Beth am y defaid? Y fuwch?

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

TASG 3

Cyfansoddwch gerdd fer ar y thema o newid ac integreiddio. Meddyliwch am strwythur y gerdd, pa brofiadau rydych chi eisiau eu dal neu'r trosiadau rydych chi am eu defnyddio.

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Darllenwch eich cerdd yn uchel i'r dosbarth a thrafod pa themâu rydych chi wedi'u cynnwys a pham.